**C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG
AR ADDYSG GREFYDDOL
08/02/12**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Huw Edwards, (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Aeron Jones, Pat Larsen a Stephen Churchman.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Parchedig Deian Evans (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr)/

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT).

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, Mrs Alwen Watkins (ASCL) a Mrs Leusa Jones (Athrawes Ymgynghorol Rhan Amser CYNNAL), Mrs Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig).

**1. <u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**

(a) Croesawyd y Parchedig Deian Evans i'w gyfarfod cyntaf o CYSAG fel olynydd i Mr Gwyn Hefin Jones i gynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

(b) Llongyfarchwyd Mrs Miriam Amlyn ar ei phriodas yn ddiweddar a dymunwyd yn dda iddi hi a'i chymar i'r dyfodol.

**2. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Parchedig Deian Evans.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2011 fel rhai cywir.

**5. HUNAN ARFARNIADAU**

**Cyflwynwyd:** Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Llanllechid
(ii) Ysgol Treferthyr
(iii) Ysgol Llanllyfni
(iv) Ysgol Llanbedr
(v) Ysgol Bro Hedd Wyn

**(A)** Tywysodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau'r Aelodau drwy'r hunan arfarniadau uchod gan eu hatgoffa o'r drefn bellach i ysgolion gyflwyno Hunan Arfarniadau i CYSAG o fewn blwyddyn arolygiad. Nodwyd bod gan CYSAG gyfrifoldeb i fonitro safonau Addysg Grefyddol a theimlwyd bod y drefn yn llwyddiannus drwy dderbyn yr Hunan Arfarniadau fel ffurf o fonitro safonau'r ysgolion. Gofynnir i ysgolion ymateb i'r tri chwestiwn allweddol canlynol:

(a) Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol
(b) Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol
(c) Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd.

Llongyfarchwyd yr ysgolion am eu hymdrechion i gwblhau'r hunan arfarniadau gyda phob ysgol yn dyfarnu Gradd 2 iddynt eu hunain. Gwelwyd lawer o ymarferion da ymhob un o'r ysgolion ac roeddynt wedi ymdrechu'n dda i ymateb gofynion CYSAG drwy gyfeirio at:

- Dealltwriaeth dda o bwysigrwydd addoli a phwysigrwydd mannau ac arteffactau arbennig i bobl o wahanol grefyddau
- Brofiadau gwerthfawr megis ymweliadau i addoldai, cynnal gwasanaethau torfol a hyrwyddo plant i adnabod y gwerthoedd sy'n bwysig yn eu bywyd bob dydd, cynnal gwasanaethau arbennig, e.e. diolchgarwch, dydd Gŵyl Dewi, a.y.b.
- Osod targedau heriol i ddisgyblion, cynnal arsylwadau ac arfarniadau
- Datblygu sgiliau athroniaeth i ddisgyblion drwy ddatblygu syniadau ac adfyfyrio
- Anogir y disgyblion i weithio'n annibynnol yn ogystal â gwaith par, grwp
- Delio â chwestiynau Mawr e.e. "A oes rhaid marw?"

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â faint o rannu syniadau o fewn yr hunan arfarniadau oedd rhwng Penaethiaid ac a fyddai modd anfon copïau ohonynt i bob ysgol, mynegodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y byddai modd iddi hi ddidoli'r syniadau a'u rhannu wrth ymweld ag ysgolion. Ychwanegodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG bod ymdrech yn cael ei wneud gan yr awdurdod i rannu ymarfer da gyda Phenaethiaid / athrawon mewn cyrsiau hyfforddiant a hynny ymhob pwnc.

Awgrymwyd y gellid creu ffurflen hunan arfarniad enghreifftiol drafft er ystyriaeth cyfarfod nesaf CYSAG drwy dynnu allan pigion o wahanol hunan arfarniadau ac y byddai Aelodau yn gallu cyfrannu drwy gynnig syniadau o ymarferion da y gwyddant amdanynt sydd o fewn ysgolion maent yn cynrychioli fel Llywodraethwyr. Gellid wedyn gosod yr enghraifft ar safle We CYNNAL er defnydd ac er budd Penaethiaid i'r dyfodol.

Gofynnodd Aelod a fyddai'r newidiadau sydd ar y gweill i sefydlu gwasanaeth addysg ranbarthol Gogledd Cymru yn effeithio ar waith a chyfrifoldebau CYSAG.

Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod pwysau ar y chwe awdurdod addysg y Gogledd i gydweithio sef Cynghorau Conwy, Ynys Môn, Gwynedd, Dinbych, Fflint a Wrecsam. Nodwyd bod CYNNAL eisoes yn darparu gwasanaeth i ysgolion awdurdodau Conwy, Ynys Môn a Gwynedd. Tra bo newidiadau ar y gorwel nodwyd bod gan CYSAGau gyfrifoldeb statudol i gynghori ysgolion ac ni ragwelir unrhyw sialens a her i CYSAG.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr hunan arfarniadau a gofyn i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol, ar ran CYSAG, anfon llythyr o longyfarch i bob un o'r ysgolion uchod am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

**(b) Trafod, yng nghyfarfod nesaf CYSAG ym mis Mehefin, creu ffurflen hunan arfarniad engreifftiol yn nodi syniadau ac arferion da i'w gosod ar safle We CYNNAL er defnydd a budd Penaethiaid ysgolion.**

**(B)** Cymerodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau'r cyfle i ddiweddaru CYSAG o'r newyddion canlynol:

(i) Bu Mrs Leusa Jones, Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol, yn cefnogi'r Ymgynghorydd Dyniaethau yn bennaf yn y sector uwchradd. Yn ystod y tymor diwethaf, bu'n cefnogi mewn cyrsiau hyfforddiant yn ogystal â rhoi sylw i bortffolios Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer sylw safonwyr allanol. Bu hefyd yn gymorth ac yn allweddol ei rôl mewn cyfres o hyfforddiant i ddatblygu sgiliau ysgrifennu ym maes Addysg Grefyddol.

Ychwanegwyd bod tair o athrawon Addysg Grefyddol wedi cymhwyso'n ddiweddar gyda Mrs Leusa Jones wedi bod yn ei harsylwi ac yn eu cefnogi ar ddechrau ar ei gyrfaoedd.

(ii) Yn yr un modd derbyniwyd cefnogaeth ar gyfer ysgolion cynradd gan Ms Debbie Humphreys, Athrawes yn Ysgol Eifion Wyn. Bu iddi gysgodi'r Ymgynghorydd Dyniaethau ar gyrsiau hyfforddiant ac wedi cynnal cyrsiau Hawl a Haeddiant i athrawon. Yn ogystal, bu iddi ddarparu cynlluniau gwaith engreifftiol sydd erbyn hyn ar safle WE CYNNAL i'w defnyddio mewn ysgolion cynradd. Diweddarwyd amserlenni engreifftiol ganddi, gan gynnwys enghreifftiau o ddeunydd ar addoli ar y cyd. Bu'n cyfeirio athrawon at restr o wefannau cyfoes ar gyfer paratoi deunyddiau sydd yn eu cynorthwyo yn y dosbarth.

(iii) Bu Ms Nia Wyn Jones, cyn athrawes yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll, o gymorth hefyd i'r Ymgynghorydd Dyniaethau, yn arbennig ym mharatoadau cynhadledd i blant ysgolion cynradd a gynhaliwyd yn y Gadeirlan, ym Mangor fel rhan o ddathliadau Addysg Grefyddol. Cafwyd diwrnod arbennig i ysgolion Gwynedd a Môn ddiwedd mis Tachwedd i ymateb y cwestiwn "Beth yw'r Nadolig?". Cafodd y plant gyfle i fynychu nifer o weithdai diddorol a hyderir y gwelir erthygl o'r dathliad hwn yn rhifyn nesaf Newyddion Addysg Grefyddol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r newyddion da uchod.**

**(b) Gofyn i Swyddog Cynorthwyol a Chlerc CYSAG anfon llythyr o ddiolch, ar ran CYSAG, i Mrs Leusa Jones, Ms Debbie Humphreys a Ms Nia Wyn Jones am eu cymorth a'u cefnogaeth yn y datblygiadau uchod ym maes Addysg Grefyddol.**

## 5. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

**Adroddwyd:** Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau fel un a fynychodd cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ar 24 Tachwedd 2011 yng Nghaerdydd y derbyniwyd cyflwyniad gan y prif safonwr drwy atgoffa CYSAGau Cymru mai hon oedd y cyfle diwethaf i Adrannau Addysg grefyddol gyflwyno portffolios disgyblion Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 3. Gobeithiwyd y byddai Addysg Grefyddol yn cael cyfnod o dair blynedd i gyflwyno portffolio ond penderfyniad ydoedd dim ond eleni y caiff disgyblion gyflwyno eu portffolios. Daeth cynnig gan un o Aelodau CYSAG yn y cyfarfod bod llythyr o gŵyn yn cael ei anfon i Lywodraeth y Cynulliad gyda chais iddynt ail-ystyried y sefyllfa o leihau'r cyfnod o 3 blynedd i 2 flynedd. Nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ei bod wedi pleidleisio, ar ran CYSAG Gwynedd, i gefnogi'r cynnig o anfon y llythyr ac yn arbennig fel bo Addysg Grefyddol yn cael yr un driniaeth â phynciau eraill.

Ychwanegodd y Cynghorydd Wyn Meredith fel un arall a fynychodd y cyfarfod y cafwyd datganiad trawiadol dros ben gan blant ysgolion cynradd yr ardal leol.

(ii) Gwybodaeth y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ym mis Ebrill yng Ngheredigion.

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o Gymdeithas CYSAGau Cymru ar 30 Ebrill 2012 yng Ngheredigion.**

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2010-11**

Cyflwynwyd i'r Aelodau Adroddiad Blynyddol terfynol CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2010-11, er gwybodaeth i'r Aelodau.

**Penderfynwyd: Derbyn a diolch i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am ei gwaith o gydlynu a pharatoi'r adroddiad blynyddol.**

**7 GOHEBIAETH**

Cyflwynwyd:

**(i) Newyddion Addysg Grefyddol**

Cylchgrawn Newyddion Addysg Grefyddol i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod gan dynnu eu sylw at erthyglau :

- Creu Gardd Ffydd gan Bennaeth Ysgol Gynradd St Andrew yr Eglwys yng Nghymru
- Adnoddau Cymorth Cristnogol - nodwyd eu bod yn datblygu gwasanaeth addoli ar y cyd bob mis yn seiliedig yn aml ar stori gyfoes. Fe ddosbarthir y rhain yn electroneg i bob ysgol uwchradd a chynradd y Sir.
- AGweddau – canllawiau i gynorthwyo athrawon Cyfnod Allweddol 2 a 3 wrth baratoi portffolios.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a diolch am gopi o gylchgrawn Newyddion Addysg Grefyddol.**

**(i) Llythyr tanysgrifiad i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru**

Adroddodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG bod y llythyr uchod wedi ei dderbyn i danysgrifio i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru yn y swm o oddeutu £1,400 gan nodi ei bod yn arferiad i CYSAG Gwynedd wneud hyn yn flynyddol.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo i danysgrifio i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru yn y swm o £1,400 eto eleni.**

**(iii) Ymddiswyddiad**

Cyflwynwyd yn ystod y cyfarfod lythyr o ymddiswyddiad oddi wrth Mr Cynrig Hughes o fod yn gynrychiolydd CYSAG ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Esboniodd Mr Hughes ei fod yn profi'n anodd iddo fynychu'r cyfarfodydd hyn oherwydd ymrwymiadau personol eraill. Teimlai nad oedd wedi bod yn gwneud cyfiawnhad i'r pwyllgor drwy beidio mynychu a chyfrannu iddo yn y gorffennol ac i'r dyfodol awgrymwyd y byddai'n well i ethol cynrychiolydd CYSAG am gyfnod o ddwy flynedd fel nad yw yn mynd yn faich ar unigolyn am gyfnod hir.

Gwnaed cais i'r aelodau enwebu cynrychiolydd ond yn anffodus ni lwyddwyd i ddenu enwebiad. Yn dilyn trafodaeth awgrymwyd ei adael ar hyn o bryd a chaniatáu i'r Cadeirydd a'r swyddogion drafod ymhellach gyda'r bwriad i roi enw ymlaen i gyfarfod nesaf CYSAG ym mis Mehefin ac yr un pryd trafod y posibilrwydd o bennu cyfnod penodol, o ddyweder 2 flynedd, i'r sawl a enwebir wasanaethu ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn llythyr o ymddiswyddiad Mr Cynrig Hughes gan ddiolch iddo am gynrychioli CYSAG a gwasanaethu cyhyd ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.**

**(b) Caniatáu i'r Cadeirydd a'r swyddogion drafod ymhellach gyda golwg i gyflwyno enwebiad i wasanaethu ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i gyfarfod nesaf CYSAG ym mis Mehefin ac yr un pryd trafod y posibilrwydd o bennu cyfnod penodol i'r penodiad.**

**8. DYMUNIADAU GORAU**

Trist ydoedd nodi penderfyniad y Cynghorydd Pat Larsen i beidio sefyll fel Cynghorydd yn yr etholiad arfaethedig ym mis Mai eleni. Talwyd teyrnged iddi gan y Cadeirydd am ei gwaith clodwiw a'r gwasanaeth diflino a roddodd i'r Pwyllgor hwn dros flynyddoedd lawer. Diolchwyd iddi yn wresog a dymunwyd pob hapusrwydd iddi yn ei hymddeoliad.

**Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.10 pm**

**CADEIRYDD**